

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R
A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal Gŵyl Stryd Nos Galan Flynyddol Cymdeithas Digwyddiadau Cymunedol Abergwaun ac Wdig ar gefnffyrdd yr A487 a'r A40, neu gerllaw iddynt, yn Abergwaun, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A487 a'r A40 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno.

Er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, bydd y trefnwyr yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol yn y digwyddiad. Fodd bynnag, bydd mynediad yn cael ei gynnal i eiddo o fewn ardal y digwyddiad.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 31 Rhagfyr 2022 a bydd yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro mewn grym o 19:30 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2022 hyd 02:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2023.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r A487 Main Street sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Hamilton Street.

Y darn o'r A487 y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r A487 Ffordd yr Efail.

**THE A487 & A40 TRUNK ROADS
(FISHGUARD, PEMBROKESHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable Fishguard & Goodwick Community Events Association's Annual New Year's Eve Street Festival to be held on or near the A487 and A40 trunk roads at Fishguard, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the event, from proceeding on the lengths of the A487 and A40 trunk roads described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are described therein.

To ensure the safety of the public, the organisers will limit the number of people attending the event. However, access will be maintained to properties within the event area.

The Order comes into force on 31 December 2022 and has a maximum duration of 2 days. The temporary prohibition is expected to be in force from 19:30 hours on 31 December 2022 until 02:00 hours on 1 January 2023.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the A487 Main Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with Hamilton Street.

The length of the A487 West Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with the A487 Ffordd yr Efail.

Y darn o'r A40 y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Feidr Gongol.

Y llwybrau eraill

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd-ddwyrain tuag at Aberteifi yw mynd ar Feidr Gongol, Carreg Onnen, Heol Preseli, Wallis Street a Hamilton Street i ailymuno â'r A487 ar Main Street: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de-orllewin.

Bydd traffig sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin i Windyhall/ y Byrgam yn cael ei ddargyfeirio ar yr A40 Ffordd Osgoi Abergwaun. Bydd traffig sy'n teithio tua'r de-ddwyrain yn cael ei ddargyfeirio o'r Wesh ar y Byrgam, Cylchfan Windyhall, Ffordd Osgoi Dwyrain Abergwaun, Cylchfan Rafael a Stryd Fawr ac yna i ddilyn y llwybr ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd-ddwyrain a ddisgrifir uchod.

Unwaith y bydd y capasiti mwyaf ar gyfer y digwyddiad wedi'i gyrraedd, y llwybr arall ar gyfer cerddwyr sy'n teithio tua'r de yw mynd ar Ffordd yr Efail, Stryd Fawr, Parcyshtut a Stryd Hamilton: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerddwyr sy'n teithio tua'r gogledd.

The length of the A40 High Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with Feidr Gongol.

Alternative routes

The alternative route for north-eastbound traffic travelling towards Cardigan is via Feidr Gongol, Carreg Onnen, Heol Preseli, Wallis Street and Hamilton Street to rejoin the A487 on Main Street: vice versa for south-westbound traffic.

North-westbound traffic travelling to Windyhall/Vergam Terrace will be diverted via the A40 Fishguard Bypass. South-eastbound traffic will be diverted from West Street via Vergam Terrace, Windyhall Roundabout, Fishguard Eastern Bypass, Rafael Roundabout and High Street to then follow the route for north-eastbound traffic described above.

Once the maximum capacity for the event has been reached, the alternative route for southbound pedestrians is via Ffordd yr Efail, High Street, Parcyshtut and Hamilton Street: vice versa for northbound pedestrians.